1/160

# Damwain mewn Pwll Glo
## yn Nghwm Rhondda,
### 130 WEDI EU LLADD.

Dydd Mawrth, Gorph. 11, 1905, digwyddodd damwain erchrydus yn Wattstown, mewn pwll yn perthyn i'r United National Collieries.—Pan y digwyddodd y ddamwain, tua haner dydd, yr oedd tua 1000 o ddynion i lawr yn y pwll. Achubwyd 850 o'r rhai hyn yn ystod y prydnawn. Yr oedd yr 150 eraill yn mhwll No. 2, ac yn y fan yma y digwyddodd y ffrwydriad. O'r rhai hyn ni ddygwyd ond un i'r lan yn fyw. Dygwyd corph Mr W. Meredith, y goruchwyliwr, i fyny o'r pwll yn mhlith y marwolion cyntaf. Yn mhlith yr anffodusion a gollasant eu bywydau yr oedd nifer mawr o fechgyn ieuaingc.

Unwaith eto yn y Rhondda,
Clywir ochain trwy y fro,
Newydd prudd a wna ni synied
Am beryglon y Pwll Glo;
Cant a thri-deg o eneidiau
Wedi 'u hyrddio i arall fyd,
Newydd trwm a chwala fwynder
Lawer aelwyd hapus, glyd.

Beth yw'r cwyno glywir heddyw,
Chwerw gri yn Ngwlad y De?
Gweddwon syn, a phlant amddifaid
A ddyrchafent uchel le'
Am anwyliaid wedi trengu
Yn nyfnderoedd y Pwll Glo,
Adsain galar, dwfn och'neidiau
Glywir yn y pruddaidd fro.

Yn mro Wattstown yn y Rhondda,
Bu y ddamwain frawchus hon,
Pruddaidd iawn y pâr yr hanes,—
Fe sobreiddia pob rhyw fron;
Marwol ergyd oedd i luaws,
Ac fe chwerwodd lawer un,
Ffrwydriad erchyll gariai dynged
Eiddil lanc a gwrol ddyn.

Tua canol dydd fe glywid
Swn a welwai aml rudd,
Mwg a thwrf a barai arswyd,
Ergyd wnai bob un yn brudd;
Braw ac arswyd ar bob gwyneb,
Dychryn wna y dewra'i fryd,
Wrth ystyried maint enbydrwydd
Colli bywyd, newid byd.

Hawdd oedd canfod maint y distryw
A ddigwyddodd yn y lle,
Wrth ymddygiad prudd gyfeillion,
A ddolefant â chri gre',
Tadau, brodyr a chu geraint
Mewn peryglon marwol mawr,
Pwy all fesur maint dioddefaint
Y trueiniaid oedd i lawr.

Ymgais ddewr a wnaed ar unwaith
I roi cymhorth iddynt hwy,
Eu cyd-weithwyr ar y glanau
Da a wyddant y mawr glwy';
Estyn 'mwared i'r trueiniaid
Hyn a lanwai pryd bob un,
Gyda sel a nerth dihafal
Ymegnia pob rhyw ddyn.

Dynion dewr ar fyr ddisgynent
Gyda'r amcan clodfawr hwn;
Heriant angeu yn eu hymdrech,
Haeddent ddiolch y byd crwn;
Gweithient gydag egni clodfawr
Er mai bychan oedd eu llwydd;
Ymdrech ddewr a bâr edmygedd;
Dewrder gofir lawer blwydd.

Mae gweddiau'r wlad yn estyn
At orseddfainc y Duw Dad,
Am ymwared i'w hanwyliaid,
Am oleuni ar eu stâd;
Tad 'r amddifad ddyry iddynt
Nawdd a chymhorth yn eu loes,
Gwenau'r nefoedd a fo drostynt
Yn daenedig trwy eu hoes!

GALARWR.

EVAN WILLIAMS, MARKET PLACE, BANGOR.

X205250253